# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR

Gwanwyn 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Croeso

Croeso i gylchlythyr y gwanwyn i rieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu rhai awgrymiadau da ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n gadael addysg yr haf hwn. Byddwch hefyd yn clywed gan Alison a Macie wrth iddynt rannu eu stori, gan ddangos sut mae ein cynghorwyr yn cefnogi dysgwyr mewn ysgolion. Yn ogystal, rydym yn falch o rannu newyddion am ein digwyddiadau diweddaraf, y Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr i gyflogwyr, digwyddiadau gyrfaoedd Beth Nesaf? ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac 11, a ffair yrfaoedd Dathlu Niwrowahaniaeth yng Nghaerdydd i rai 16 oed a hŷn.



## Llais rhieni

Mae Gyrfa Cymru yn awyddus i glywed adborth am ein gwasanaethau gan rieni a gofalwyr ledled Cymru. Gall eich barn a'ch dewisiadau ein helpu i wella a chynllunio ein gwasanaethau.

A fyddech chi'n fodlon rhannu eich adborth gyda ni? Os felly, anfonwch e-bost rhieni@gyrfacymru.llyw.cymru cyn 25 Ebrill 2025.



# Syniadau da

Ydy'ch plentyn yn gorffen ysgol eleni ac yn symud ymlaen i goleg, gwaith neu hyfforddiant? Mae ein cynghorwyr gyrfa wedi rhoi rhai awgrymiadau da at ei gilydd i helpu wrth bontio.

## Cludiant

- Cynlluniwch sut bydd eich plentyn yn teithio, boed hynny i goleg, gwaith neu hyfforddiant.
- Gwiriwch amseroedd teithio cyn y diwrnod cyntaf.
- Os yw'ch plentyn yn teithio'n annibynnol, beth am roi cynnig ar y daith ymlaen llaw?



## Adolygiadau

- Mynychwch adolygiad y Cynllun Datblygu Unigol yn y flwyddyn olaf i ofyn unrhyw gwestiynau.
- Rhannwch yr hyn rydych chi'n meddwl sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal.

## Opsiynau

- Mynychwch unrhyw ddigwyddiadau agored i ddarganfod cymaint â phosibl. Os oes mwy nag un opsiwn, ymchwiliwch i bob un ohonynt i gymharu'r hyn sydd ar gael.
- Peidiwch ag anghofio gwneud cais mewn da bryd oherwydd gall cyrsiau coleg ddod yn llawn yn gynnar a gall colegau gynnig diwrnodau pontio tra bod eich plentyn yn dal yn yr ysgol.
- Rhowch ddigon o amser i chi'ch hun edrych ar yr hyn sydd ar gael.
- Os yw'ch plentyn yn mynd i'r coleg, gwnewch yn siŵr bod gan y coleg gopi o'i Gynllun Datblygu Unigol neu gynllun dysgu a sgiliau.



## Cymorth

- Sicrhewch fod pawb sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn ymwybodol o'r camau nesaf y mae'n bwriadu eu cymryd.
- Ewch i'n gwefan am gyngor i bob oed.
- Siaradwch â'r gwasanaethau cymdeithasol am wasanaethau oedolion.
- Peidiwch ag anghofio bod y cynghorydd gyrfa, gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr pontio i'r coleg i gyd yno i helpu ac ateb cwestiynau.

# Eich cefnogi chi a'ch plentyn

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniad cywir am ei ddyfodol.



## Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd diduedd.
- helpu eich plentyn i ddeall ei gryfderau a chyrraedd ei botensial.
- rhannu gwybodaeth am opsiynau amrywiol, gan gynnwys gwaith a dysgu pellach.
- helpu'ch plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor sy'n gysylltiedig â'i opsiynau yn y dyfodol.
- cefnogi'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau.

Mae Deddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, yn golygu y bydd gan bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol Gynllun Datblygu Unigol (CDU) yn hytrach na datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg unigol. Erbyn Medi 2025, bydd y Ddeddf yn cwmpasu pob grŵp oedran mewn ysgol.

Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU), efallai y bydd ei gynghorydd gyrfa yn cael ei wahodd i'w adolygiad blynyddol i drafod pontio o'r ysgol. Gall y cynghorydd gyrfa roi gwybodaeth a chyngor am opsiynau ôl-ysgol. Yn ogystal, gall eich cyfeirio at asiantaethau eraill a all roi cymorth i chi a'ch plentyn wrth iddo symud ymlaen o'r ysgol.

## I gefnogi eich plentyn, gallwn wneud y canlynol:

- cwrdd ag ef i siarad am ei syniadau ar gyfer y dyfodol.
- cwrdd â chi i drafod opsiynau.
- mynychu adolygiadau pan gawn wahoddiad, yn enwedig yn ystod ei flwyddyn olaf yn yr ysgol.
- trafod neu eirioli ar ran eich plentyn os oes angen.



# Stori Alison a Macie

## Straeon go iawn

Mae cynghorwyr gyrfa yn gweithio gyda phob ysgol yng Nghymru i gefnogi dysgwyr gyda gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.

Mae Alison Peel yn gynghorydd gyrfa yng ngogledd Cymru sydd wedi cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion a cholegau am yr 13 mlynedd diwethaf. Mae'r cymorth y mae'n ei ddarparu wedi'i deilwra i bob dysgwr.

Mae Alison yn rhannu sut mae hi wedi cefnogi Macie Marsh, disgybl Blwyddyn 14 yn Ysgol y Gogarth sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n gadael yr ysgol yr haf hwn.



## Pecyn cymorth

"Cwrddais â Macie am y tro cyntaf yn 2019, pan oedd hi ym Mlwyddyn 9. Mynychodd Macie ei chyfweliad gyrfaoedd cyntaf gyda mi, lle dechreuon ni sgwrsio am yr hyn y gallai fod eisiau ei wneud yn y dyfodol. Dangosodd Macie ddiddordeb mewn gweithio yng nghaffi'r ysgol a thrin gwallt.

"Cwrddais â Macie eto sawl gwaith pan oedd ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn ystod gweithdai grŵp. Edrychodd fy ngweithdai ar sgiliau, diddordebau, technegau cyfweld a sgiliau gwneud penderfyniadau.

"Eisteddais i lawr gyda Macie eto i gael cyfweliad gyrfaoedd ym Mlwyddyn 12. Gwrandewais arni a gofyn cwestiynau, gan ei chefnogi gyda'i syniadau. Erbyn Blwyddyn 12, dechreuodd Macie ddangos diddordeb mewn bod yn gynorthwyydd dosbarth. Fy rôl i oedd sicrhau ei bod yn gwneud y penderfyniadau cywir a chreu cynllun camau nesaf.

"Rwyf wedi mynychu llawer o adolygiadau blynyddol Macie yn Ysgol y Gogarth rhwng blynyddoedd 9 ac 14. Mae'r adolygiad blynyddol yn bwysig i sicrhau bod Macie yn cael y cymorth sydd ei angen arni ac yn gwneud cynnydd i helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

"Mae angen i ddysgwyr gael blas ar y byd gwaith i wneud dewisiadau am eu gyrfaoedd. Rydym wedi trefnu i gyflogwyr ymweld â'r ysgol ac ymweliadau â gwahanol weithleoedd. Rydym wedi cynnal sesiynau ffug gyfweliadau gyda chyflogwyr yn yr ysgol ac mae Macie wedi'u mwynhau. Mynychodd hefyd ein digwyddiadau gyrfaoedd 'Beth nesaf?'.

"Rydw i mor hapus i weld bod Macie eisoes yn cael profiad gwaith fel cynorthwyydd dosbarth, gan gefnogi dysgwyr ifanc yn Ysgol y Gogarth. Bydd Macie yn gadael yr ysgol yr haf hwn ac wedi llwyddo i gael lle yng Ngholeg Llandrillo ar y cwrs Sgiliau Bywyd a Gwaith ac mae hi hefyd yn bwriadu gwneud rhywfaint o wirfoddoli. Rwyf wedi mwynhau cefnogi Macie ac yn dymuno'r gorau iddi wrth gyflawni ei nodau."

## Edrych ymlaen

Ychwanegodd Macie: "Rwyf wedi mwynhau siarad ag Alison ac mae hi wedi fy helpu i ddeall fy opsiynau a gwneud cynllun. Mae hi wastad wedi bod yno i fy helpu i, fy mam a fy athrawon. Ar y dechrau, roeddwn i'n meddwl fy mod i eisiau bod yn driniwr gwallt, ond rydw i'n hoffi plant ac rydw i wir yn mwynhau fy mhrofiad gwaith fel cynorthwyydd dosbarth.

"Mae Alison wastad wedi bod yno i wrando arna i a fy helpu i wneud dewisiadau am fy nyfodol. Mae hi wedi gwneud i mi deimlo'n llawer hapusach."

# Gweithio gyda chyflogwyr

## Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr

Mae'r Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr yn ffordd i Gyrfa Cymru gydnabod a diolch i'r busnesau sy'n gweithio gyda ni.

Bob blwyddyn, rydym yn dathlu'r gwaith y mae cyflogwyr wedi'i wneud i helpu ysgolion a phobl ifanc i ymgysylltu â byd gwaith.

Mae partneriaeth rhwng busnesau ac ysgolion yn rhoi ysbrydoliaeth a chymhelliant i bobl ifanc. Mae gwybodaeth a phrofiadau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â byd gwaith yn helpu pobl ifanc i gysylltu'r hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol â byd gwaith.

Cynhaliwyd gwobrau 2025 yn y Senedd ym mis Ionawr. Mynychodd 36 o fusnesau enwebedig. Cyhoeddwyd naw enillydd ar y diwrnod gan ein gwesteiwr, y newyddiadurwraig Sian Lloyd.

Roedd Jack Sargeant, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, yn bresennol a dywedodd:

"Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu ymroddiad busnesau Cymru a'r effaith y maent yn ei chael wrth lunio dyfodol pobl ifanc.

"Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr ac i'r enwebeion am eu hymrwymiad i rymuso'r genhedlaeth nesaf drwy feithrin eu sgiliau, magu eu hyder, a chynnig profiadau gyrfa amhrisiadwy. Mae eich ymdrechion yn ysbrydoledig!"

Gallwch ddarllen mwy am y gwobrau a'r enillwyr ar y dudalen Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr ar ein gwefan.

Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr











"Mae'r gydnabyddiaeth hon yn amlygu ymroddiad busnesau Cymru a'r effaith y maent yn ei chael wrth lunio dyfodol pobl ifanc."

**Jack Sargeant,**
Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

# Beth nesaf?

## Digwyddiad Dewiswch Eich Dyfodol

Yn ddiweddar, cynhaliodd Gyrfa Cymru ddigwyddiad 'Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol' yng Nghaerfyrddin, gan roi cyfle i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol archwilio opsiynau gyrfa yn y dyfodol.

Croesawodd y digwyddiad ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 o ysgolion arbennig ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys. Roedd dros 150 o ddysgwyr yn bresennol i archwilio eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Cefnogodd deg sefydliad o amrywiaeth o sectorau y digwyddiad. Gwnaethant gynnig gwybodaeth am swyddi, gyrfaoedd, prentisiaethau, hyfforddiant, a llwybrau addysgol.

Bu dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol, yn mwynhau gweithgareddau ymarferol i ddysgu am wahanol swyddi, ac yn gallu cysylltu â darpar gyflogwyr. Roedd cynghorwyr gyrfa hefyd wrth law i roi cyngor a chyfarwyddyd diduedd ar gyrsiau, cymwysterau, a llwybrau gyrfa.

Dywedodd Leanne McFarland, cysylltydd gyrfa gofal rhanbarthol gyda Gofalwn Cymru: "Mae'n wych cael y digwyddiadau hyn sydd wedi'u trefnu gan Gyrfa Cymru, gan eu bod yn rhoi cyfle i bob myfyriwr weld pa gyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddyn nhw, a pha opsiynau gwahanol sydd ganddyn nhw ar ôl gadael yr ysgol."

Dywedodd James Harper, rheolwr effaith gymdeithasol gyda Principality: "Mae'n wych bod yng Nghaerfyrddin heddiw. Mae'n wych cyfarfod â chymaint o bobl ifanc ac rydym yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth am yrfaoedd yn y gwasanaethau ariannol ledled Cymru."

Dywedodd Hannah Stephens, cynghorydd cyswllt busnes gyda Gyrfa Cymru: "Mae'r digwyddiad hwn yn ymwneud â chreu amgylchedd cynhwysol lle gall pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.

"Yn ogystal â helpu i feithrin eu hyder a'u cymhelliant, bydd yr wybodaeth a'r anogaeth a gânt yn eu helpu i nodi cyfleoedd a gwneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaoedd yn y dyfodol."

Bydd digwyddiadau Beth Nesaf? hefyd yn cael eu cynnal ym Mhort Talbot a Merthyr Tudful. Gellir dod o hyd i fanylion digwyddiadau ar ein gwefan.











gyrfacymru.llyw.cymru/digwyddiadau

# Dathlu niwrowahaniaeth

Mynychodd dros 300 o bobl ein ffair swyddi gyntaf ar gyfer ceiswyr gwaith niwrowahanol yn ein canolfan gyrfaoedd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Trefnwyd y digwyddiad mewn ymateb i lawer o gwsmeriaid niwrowahanol yn rhannu pryderon ynghylch dod o hyd i gyflogwyr a oedd yn fodlon gwneud addasiadau ar eu cyfer.

Mae Cymru'n Gweithio, a drefnodd y digwyddiad, yn cael ei gyflwyno gan Gyrfa Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd i'r rhai 16 oed a hŷn.

Wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer unigolion niwrowahanol, yn cynnwys y rhai sydd heb gael diagnosis eto, bu'r ffair yn fodd i'r rhai a oedd yn bresennol archwilio cyfleoedd cyflogaeth mewn amgylchedd hygyrch a chefnogol.

Mynychodd deg cyflogwr cynhwysol, gan gynnwys CThEM, BBC Cymru Wales, Barnardo's, Trafnidiaeth Cymru, y GIG, a'r Hyb Arloesedd Seiber, y digwyddiad i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa.

Bu'r rhai a ddaeth i'r ffair yn canmol y digwyddiad am fod yn groesawgar, yn gynhwysol, ac wedi'i deilwra i'w hanghenion.

Dywedodd un cyfranogwr: "Mae chwilio am waith pan fo gennych gyflwr niwrowahanol yn frawychus, felly mae'r ffaith bod yna ffair swyddi gynhwysol yn anhygoel."

Dywedodd un arall a oedd yn bresennol: "Rwy'n gobeithio y bydd rhagor o ddigwyddiadau fel hyn."

Roedd cynghorwyr gyrfa wrth law drwy gydol y digwyddiad i gynnig cymorth cyflogadwyedd personol.

Dywedodd Mike Keohane, rheolwr tîm yn Gyrfa Cymru: "Roedden ni'n cydnabod bod gwir angen digwyddiad fel hwn. Roeddem am wneud rhywbeth ar gyfer ceiswyr gwaith niwrowahanol lle gallent archwilio cyfleoedd gyrfa gyda chyflogwyr sy'n deall ac yn gwerthfawrogi eu sgiliau. Roedd gweld cymaint o bobl yn ymgysylltu'n gadarnhaol â chyflogwyr a sefydliadau cymorth yn wych, ac rydym wrth ein bodd â'r adborth.

"O ystyried llwyddiant ysgubol y digwyddiad, rydym yn edrych ymlaen at gynnal rhagor o ffeiriau swyddi cynhwysol yn y dyfodol."

Mae holl ddigwyddiadau Cymru'n Gweithio i'w gweld yma.

cymrungweithio.llyw.cymru/digwyddiadau





"Mae chwilio am waith pan fo gennych gyflwr niwrowahanol yn frawychus, felly mae'r ffaith bod yna ffair swyddi gynhwysol yn anhygoel."

Cyfranogwr

## Trefnwch apwyntiad

A oeddech chi'n gwybod ein bod ni'n cynorthwyo oedolion hefyd? Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn darparu ystod eang o gymorth yn cynnwys mynediad i hyfforddiant, uwchsgilio, cyllid, a help gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.

Gallwch drefnu apwyntiad gyda chynghorydd gyrfa yma

Cymru'n Gweithio
Working Wales

## Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd am ddim os ydych yn 16 oed neu'n hŷn.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod yr amrywiaeth o ffyrdd y gallwn eich cefnogi ar eich camau nesaf:

- Cyngor ynglŷn â gwaith
- Bwletin swyddi
- Cymorth ar ôl colli swydd
- Prentisiaethau
- Ar ôl gadael yr ysgol
- Gwarant i bobl ifanc

www.cymrungweithio.llyw.cymru

## Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio 0800 028 4844
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael yn www.gyrfacymru.llyw.cymru
- Galwch heibio i un o'n canolfannau gyrfaoedd
- Anfonwch neges ebost i post@gyrfacymru.llyw.cymru

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government